Ymgynghoriad ar Bolisi y CPS ar gyfer erlyn achosion o drais yn y cartref

Crynodeb o ymatebion

Ymateb i ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron.
Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd ar wefan y CPS yn www.cps.gov.uk

Cynnwys

Rhagarweiniad	**2**
Cefndir	**3**
Crynodeb o'r Ymatebion	**3**
Ymatebion i Gwestiynau Penodol	**5**
Casgliad	**14**
Meini prawf yr ymgynghoriad	**15**
Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr	**16**

Rhagarweiniad

Dyma grynodeb o'r ymatebion i: 'Ymgynghoriad ar Bolisi y CPS ar gyfer erlyn achosion o drais yn y cartref'.

Mae'n disgrifio:
- cefndir yr ymgynghoriad;
- crynodeb o'r ymatebion;
- crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau penodol; ac
- ein casgliadau.

Mae rhagor o gopïau o'r ddogfen hon i'w cael trwy gysylltu ag:

Ymgynghoriad ar Drais yn y Cartref
Y Gyfarwyddiaeth Polisi
Gwasanaeth Erlyn y Goron
50 Ludgate Hill
Llundain
EC4 M7EX

Maent i'w cael hefyd trwy e-bost o: hqpolicy@cps.gsi.gov.uk

Gellir cael copïau hefyd ar wefan y CPS:
www.cps.gov.uk/publications/docs/DomesticViolencePolicy.pdf

Cefndir

Ym mis Awst 2008, fe lansiodd Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) ymgynghoriad cyhoeddus ar adnewyddu ei Ddatganiad Polisi Cyhoeddus ar erlyn achosion o trais yn y cartref. Nod yr ymgynghoriad oedd ceisio sicrhau amrywiaeth eang o safbwyntiau er mwyn hysbysu polisïau ac arferion y CPS mewn perthynas ag erlyn achosion o drais yn y cartref.

Mae'r CPS yn gyfrifol am adolygu achosion o drais yn y cartref a chymhwyso'r Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron er mwyn penderfynu a ddylid erlyn ai peidio. I gynorthwyo erlynwyr i wneud y penderfyniad hwnnw, buom yn adolygu ein polisïau a'n harferion trwy ymgynghori'n gyhoeddus a mewnol. Mae'r Datganiad Polisi Cyhoeddus yn rhoi cyngor ynghylch yr hyn y mae'r CPS yn ei wneud, sut y bydd achosion o drais yn y cartref yn cael eu herlyn, a'r hyn y gall dioddefwyr ei ddisgwyl gan y CPS. Cafodd y datganiad polisi ei anelu'n benodol at y rhai sy'n cefnogi dioddefwyr trais yn y cartref, boed yn broffesiynol neu'n bersonol, er y gall fod o ddiddordeb i ddioddefwyr, tystion a'r cyhoedd.

Mae'r CPS yn ystyried trais yn y cartref yn fater hynod ddifrifol. Mae'r ffaith ei fod yn digwydd yn y cartref yn ffactor sy'n dwysáu'r sefyllfa oherwydd y torri ymddiriedaeth sy'n rhan annatod o drais yn y cartref. Bydd y dioddefwyr yn adnabod y sawl sy'n eu cam-drin ac, yn aml, yn byw neu wedi byw gyda'r camdriniwr. Yn fwy na hynny, rydym yn ymwybodol y bydd diogelwch y dioddefwyr yn aml dan fygythiad parhaus ac, yn yr achosion gwaethaf, fe allai bywyd y dioddefydd a bywydau pobl eraill (gan gynnwys plant) fod mewn perygl.

Bydd fersiwn diwygiedig o'r ddogfen a fu'n destun ymgynghoriad yn dod yn 3ydd rhifyn diweddaraf y Datganiad Polisi Cyhoeddus ar erlyn achosion o drais yn y cartref. Mae'r datganiad polisi ar ei newydd wedd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r crynodeb hwn o ymatebion.

Fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus, gofynnwyd i ymatebwyr ateb 12 cwestiwn penodol a rhoi unrhyw sylwadau neu farn ychwanegol ar ddiwedd eu hymateb. Daeth cyfnod yr ymgynghoriad i ben ar 29 Hydref 2008, er i nifer fach o ymatebion ddod i law ar ôl y dyddiad hwn. Cafodd yr holl ymatebion a dderbyniwyd cyn 20 Tachwedd 2008 eu cynnwys yn y crynodeb o ymatebion. Mae rhestr o'r rhai a ymatebodd i'w chael yn Atodiad A.

Crynodeb o'r ymatebion

Daeth cyfanswm o 50 ymateb i law. Rhannwyd yr ymatebwyr hyn yn dri chategori, sef:

- ymatebion gan unigolion;
- ymatebion gan sefydliadau; ac
- ymatebion gan asiantaethau cyfiawnder troseddol.

Mae manylion y tri chategori o ymatebwyr i'w gweld yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1: Tabl o'r math o ymatebydd

Crynodeb o'r Ymatebwyr

Categori Ymatebwyr	Nifer	Canran o'r Cyfanswm
Ymatebwyr Unigol	6	12
Sefydliadau	23	46
Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol	21	42
Cyfanswm	**50**	**100%**

Nid yw pob ymatebydd wedi rhoi atebion penodol i bob cwestiwn unigol yn yr ymgynghoriad. Mae Tabl 2 isod yn dangos cyfanswm nifer yr ymatebion i bob cwestiwn ac mae'r ganran yn cynrychioli cyfanswm nifer yr ymatebwyr, heb ystyried y math.

Tabl 2: Tabl o ymatebion i gwestiynau unigol fel canran o gyfanswm nifer yr ymatebwyr

Ymatebion i gwestiynau unigol fel canran o'r holl ymatebwyr

Cwestiwn	Nifer yr ymatebion a gafwyd	Canran cyfanswm yr ymatebwyr
1	27	54
2	15	30
3	15	30
4	27	54
5	27	54
6	29	58
7	31	62
8	30	60
9	25	50
10	21	42
11	29	58
12	11	22

Cafodd pob ymateb unigol ei adolygu gan Gyfarwyddiaeth Polisi y CPS. Nid yw pob ymatebydd wedi cadw at y cwestiynau penodol a geir yn y ddogfen ymgynghori ond mae barn yr ymatebwyr yn cael ei hadlewyrchu yn y tablau uchod a'r dadansoddiad manwl o ymatebion sy'n dilyn.

Ymatebion i gwestiynau penodol

CWESTIWN 1: A yw'r rhagarweiniad yn egluro pwrpas y ddogfen yn glir ac yn rhoi arwydd da o'r pwys y mae'r CPS yn ei roi ar fynd i'r afael â thrais yn y cartref? Os nad yw, awgrymwch sut y gallem wneud hyn yn gliriach.

Cafwyd 27 ymateb. Yn gyffredinol, roedd mwyafrif yr ymatebion yn gadarnhaol, gyda 23 yn cytuno bod y polisi yn bodloni ei nodau. Yr oedd dau ymatebydd heb sylwadau i'w gwneud a dau arall yn ymateb yn negyddol.

Teimlai un ymatebydd fod y CPS yn anghywir o ran beth oedd ei flaenoriaeth. Teimlai'r ymatebydd hwn mai'r flaenoriaeth gyntaf ddylai fod atal trais yn y cartref a'r ail flaenoriaeth ddylai fod dod â throseddwyr gerbron llys.

Teimlai dau ymatebydd y dylai'r CPS fod yn fwy beiddgar yn ei ymrwymiad i osod y dioddefwr yn ganolog yn y broses erlyn.

Yr oedd ar bedwar ymatebydd eisiau rhagor o wybodaeth a datganiadau clir ynghylch trosedd anrhydedd a phriodas dan orfod. Yn benodol, teimlai un fod yna ddiffyg gwybodaeth ynghylch rhwystrau diwylliannol a cham-drin ariannol.

Teimlai un ymatebydd nad oedd y datganiad drafft fel cyfanwaith yn ddigon penodol o safbwynt rhyw y bobl dan sylw. Fodd bynnag, teimlai dau arall fod y datganiad drafft yn rhoi mwy o bwyslais ar un rhyw na'r llall ac yn credu nad oedd dynion a menywod yn cael eu trin yn gyfartal gan y CPS. Yn benodol, teimlai un o'r ymatebwyr hyn fod yr ymdriniaeth bresennol yn rhwystr sefydliadol i ddynion.

Teimlai un ymatebydd nad oedd y polisi fel cyfanwaith yn ddigon effeithiol ac nad oedd yr iaith yn ddigon cyfeillgar. Teimlai un arall y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i fictimeiddio dro ar ôl tro ac un arall y dylid rhoi ystyriaeth i ddiffiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru o gam-drin yn y cartref (teimlai'r ymatebydd ei fod yn ehangach na'r diffiniad rhynglywodraethol).

CWESTIWN 2: A yw rôl y CPS a'r esboniad o'r profion dan y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron yn glir? Os nad yw, awgrymwch ffyrdd y gallem wneud y ddwy adran hon yn gliriach.

Cafwyd 15 ymateb i'r cwestiwn hwn. At ei gilydd, roedd mwyafrif yr ymatebion yn gadarnhaol gyda 10 yn cytuno bod y profion yn cael eu hegluro'n glir. Ni chafwyd sylw gan bedwar ar yr adran hon a chafwyd un ymateb negyddol.

Teimlai naw ymatebydd fod angen eglurhad pellach ar gam tystiolaethol y Prawf Côd Llawn ac, yn benodol, y Prawf Trothwy.

Teimlai un ymatebydd y dylid cyfeirio at yr Uned Gofal Tystion yn 3.1 hefyd.

Yn 3.4 teimlai un ymatebydd hefyd y dylai'r datganiad polisi egluro'r canlynol: er bod gwasanaethau i ddioddefwyr, fel Cynghorwyr Trais yn y Cartref Annibynnol, ar gael mewn rhai lleoliadau, nid yw hyn yn wir am bob ardal. Teimlai'r ymatebydd hwn hefyd y dylai fod esboniadau symlach ar gyfer dioddefwyr.

Teimlai un ymatebydd fod adran 3.5 wedi'i geirio'n drwsgl a bod angen aileirio. Er bod yr adrannau at ei gilydd yn dda, teimlai un arall y byddai enghreifftiau penodol o gymhwyso'r profion wedi bod yn ddefnyddiol.

Roedd nifer o ymatebwyr yn croesawu'r eirfa. Awgrymodd un y gellid ei lleoli ar flaen y ddogfen yn hytrach nag yn y cefn.

Nid oedd un yn hapus bod Llurgunio Organau Rhywiol Merched (FGM) wedi'i gynnwys yn y datganiad drafft gan ddweud y dylid hepgor y trosedd hwn oherwydd nad yw'n fater sy'n gysylltiedig â thrais yn y cartref, gan fod FGM yn cael ei gyflawni yn erbyn plant cyn oed aeddfedrwydd ac y dylai gael ei ddiffinio fel cam-drin plant.

CWESTIWN 3: A ydych yn cytuno â'r ffordd rydym wedi mynd i'r afael â mythau a stereoteipiau?

Cafwyd 15 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd naw yn gadarnhaol, pump yn negyddol a chafwyd un heb sylwadau. Roedd mwyafrif yr ymatebion yn gadarnhaol ac yn croesawu'r ffordd roedd pwnc mythau a stereoteipiau wedi'i gynnwys trwy'r datganiad drafft. Dywedodd dau ymatebydd na allent ddod o hyd i'r adran hon.

O blith yr ymatebwyr a wnaeth awgrymiadau penodol, teimlai tri y dylid cael rhagor o wybodaeth, yn enwedig ynghylch trais seicolegol a pham nad yw dioddefwyr yn mynychu'r llys. Teimlai un arall hefyd y dylid crybwyll y ffaith na fydd rhai dioddefwyr yn mynychu oherwydd eu bod yn parhau i ymwneud yn emosiynol â'r diffynnydd ac y gallant deimlo teyrngarwch tuag atynt.

Awgrymodd un ymatebydd y dylid rhoi rhagor o bwyslais ar yr hyfforddiant ychwanegol a roddwyd i erlynwyr, yn benodol mewn perthynas â thrais yn y cartref. Teimlent y byddai hyn yn gwella hyder dioddefwyr a thystion yn y polisi.

Yr oedd anghytundeb ynghylch a ddylai'r pwnc hwn fod yn y datganiad o gwbl. Teimlai un ymatebydd ei fod yn haeddu atodiad ar wahân o fewn y datganiad a allai roi enghreifftiau o rai o'r mathau o fythau sy'n parhau yn y maes hwn. Fodd bynnag, teimlai ymatebydd arall nad datganiad polisi oedd y lle cywir ar gyfer y wybodaeth hon ac y byddai'n well yn rhywle arall yn y canllaw hwn.

Teimlai un ymatebydd mai cyfyngedig oedd y manylion o safbwynt dynion, a theimlai hefyd ei bod hi'n bwysig nid yn unig bwysleisio'r ymdriniaeth o fewn y ddogfen, ond hefyd sicrhau bod geiriau yn cael eu troi'n weithredoedd.

CWESTIWN 4: A oes angen esboniad pellach ar y pethau y byddwn yn eu hystyried wrth benderfynu parhau ag erlyniad yn groes i ddymuniadau dioddefwr; a yw erlyn er budd y cyhoedd; neu a ddylid derbyn pledion? Os oes, pa rannau sydd angen esboniad pellach?

Cafwyd 27 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd yr holl ymatebion yn gadarnhaol i raddau helaeth, gyda sylwadau fod yr adran yn fanwl, cynhwysfawr a chlir. Awgrymodd nifer o ymatebwyr ragor o welliannau i'r adran hon.

Roedd amryw o ymatebwyr yn mynegi'r farn fod angen esboniadau cliriach ar nifer o faterion, gan gynnwys: gwrandawiadau Newton; derbyn pledion llai; gwysion a gwarantau; mesurau arbennig; a'r posibilrwydd na fydd barn bersonol dioddefwr bob amser yn cyd-fynd â'r ffaith fod yr erlynwyr yn cymhwyso cam budd y cyhoedd yn y Prawf Côd Llawn.

Awgrymodd ymatebydd y dylai fod pwyslais ar roi rhestr o wasanaethau cefnogi i'r dioddefwr a'r tystion ar bob cam yn y broses, ynghyd â gwybodaeth a allai roi gwell dealltwriaeth i'r dioddefwr a'r tystion am broses y llys. Eu teimlad oedd y byddai hyn yn gostwng cyfraddau athreuliad mewn achosion o'r fath.

Cafwyd sylwadau gan nifer o ymatebwyr i baragraff 6.4, gan gynnwys: "nid yw'n glir beth mae'r CPS yn ei olygu gyda 'cyflwr presennol perthynas y dioddefwr gyda'r diffynnydd'; 'sut mae hyn yn berthnasol i'r penderfyniad ynghylch erlyn er budd y cyhoedd?'; ac roedd modd camddehongli'r pwynt oedd yn cyfeirio at: 'cyflwr presennol perthynas y dioddefwr gyda'r diffynnydd', ac y dylid ehangu hynny trwy gynnwys esiamplau, er enghraifft, nad ydynt yn bartneriaid bellach ond bod cysylltiad rhyngddynt o hyd oherwydd bod yna blant o'r berthynas.

CWESTIWN 5: A yw'r adran ar gefnogaeth a diogelwch dioddefwyr yn gwneud yn glir mor bwysig yw'r materion hyn i'r CPS? A yw'n rhoi'r holl wybodaeth berthnasol mewn ffordd sy'n hawdd ei deall? Os nad yw, sut dylid ei newid?

Cafwyd 27 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd mwyafrif yr ymatebion yn gadarnhaol, gan gadarnhau bod yr adran yn glir a llawn gwybodaeth.

Teimlai nifer o ymatebwyr y dylid rhoi rhagor o esboniad ac eglurder yn y meysydd canlynol: cais amserol am fesurau arbennig; cyfweliadau gyda thystion cyn y treial; Datganiadau Personol Dioddefwyr; a'r Côd i Ddioddefwyr.

Roedd un ymatebydd yn pryderu bod 10.14 yn y datganiad drafft yn rhoi'r pwyslais anghywir gan fod mwyafrif helaeth yr achosion o drais yn y cartref yn cael eu gwrando yn y llys ynadon. Teimlai'r ymatebydd hwn y dylai'r adran egluro pryd a ble y gallai cyfweliad dioddefwr gael ei chwarae yn y llysoedd ynadon ac y dylid pwysleisio'n gryfach mai'r llys fydd yn gwneud y penderfyniad. Roeddynt yn pryderu bod perygl y bydd disgwyliadau'n cael eu codi y bydd mesurau arbennig ar gael, gan ddod i ddeall yn ddiweddarach fod y llys wedi gwrthod y cais. Roeddynt yn teimlo bod hyn yn amharu ar barodrwydd tystion i roi tystiolaeth.

Teimlai ymatebydd arall y dylid nodi, er bod y ddogfen yn rhoi pwyslais ar gynghorwyr IDVA, y dylid cydnabod mai gwasanaeth cyfyngedig yw hwn o hyd o ran nifer ac oherwydd y gofyniad y dylai'r achosion fod yn rhai 'risg uchel' mewn nifer o ardaloedd. Teimlid y gallai fod yn ddefnyddiol cyfeirio at ffynonellau cymorth eraill yn y fan hyn, yn unol â threfniadau lleol.

Roedd dau ymatebydd (gan gydnabod yr hyfforddiant yr ymgymerwyd ag ef oddi mewn i'r CPS) yn pryderu ynghylch maint yr hyfforddiant a roddwyd i gyfreithyddion allanol oedd yn cynrychioli'r CPS ac i adfocadau o'r Bar, ac yn teimlo y dylid crybwyll hyn o fewn y maes hwn er mwyn sicrhau na fyddai'r cyhoedd yn credu bod pawb a fyddai'n delio â'u hachos wedi derbyn hyfforddiant uwch gan y CPS.

Teimlai un ymatebydd y dylid ychwanegu paragraff ychwanegol yn 10.40 yn y datganiad. Byddai hyn yn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol a thystion yn ymwybodol y gall aelod o'r Gwasanaeth Tystion gael caniatâd i fynd gyda'r tyst i'r llys i roi cefnogaeth foesol pan fydd tyst yn poeni am fynd yno a rhoi tystiolaeth. Hefyd, os cafodd y dioddefwr neu'r tyst gefnogaeth gan asiantaethau cefnogi eraill (e.e. Cymorth i Fenywod) caniateir i aelod o'r gwasanaeth cefnogi hwnnw fynd gyda'r tyst i'r llys i gynnig cefnogaeth foesol.

CWESTIWN 6: A ydym yn rhoi arwydd clir o'r ffordd y byddwn yn delio â phlant fel dioddefwyr a thystion? Os nad ydym, nodwch ffyrdd y gallen wneud hynny.

Cafwyd 29 ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebion yn gadarnhaol a dywedwyd bod yr adran hon yn glir. Fodd bynnag, awgrymwyd mewn sylwadau eraill fod angen esboniad pellach mewn meysydd penodol.

Roedd nifer o ymatebwyr yn awyddus i weld ehangu ym maes gwasanaethau i dystion sy'n blant er mwyn sicrhau bod y pwyntiau allweddol ar gael yn y datganiad hwn yn hytrach na chroesgyfeirio'r darllenydd at ddogfen arall. Gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol ynghylch y ffordd y gall y CPS sicrhau bod profiad plant sy'n dystion yn fwy cadarnhaol yn y llys.

Teimlai ymatebydd hefyd fod angen sylw penodol mewn perthynas ag ymrwymiad cadarnhaol i gefnogi achosion yn ymwneud â phobl ifanc 16-18 mlwydd oed sydd mewn perthynas dreisgar. Unwaith eto, codwyd mater amlygu *(signposting)* gan nifer o ymatebwyr a oedd yn teimlo bod angen i'r CPS sicrhau bod cefnogaeth ar gael i ddioddefwyr sy'n blant ar ôl i broses y system cyfiawnder troseddol gael ei chwblhau, ac ysgwyddo'r cyfrifoldeb o sicrhau bod llwybrau tuag at y gefnogaeth hon yn cael eu hamlygu er mwyn mynd i'r afael â materion fel rhoi tystiolaeth yn erbyn rhiant. Dylai'r polisi dderbyn bod diogelwch y plentyn yn hollbwysig, nid yn bwysig yn unig, ac amlygu anghenion plant anabl yn benodol. Byddai enghreifftiau penodol o gefnogaeth yn ddefnyddiol

CWESTIWN 7: A yw'r adran ar roi gwybod i ddioddefwyr beth sy'n digwydd yn glir? Os nad yw, sut gallem ni ei gwneud yn gliriach?

Cafwyd 31 ymateb i'r cwestiwn hwn. O blith y rhain, roedd 25 ymatebydd yn cytuno bod yr adran hon yn glir.

Cafwyd awgrymiadau y dylid cynnwys siart llif yn dangos y broses a rhyngwynebau posib rhwng y CPS/Heddlu, paragraff ychwanegol ynghylch Cyfathrebu'n Uniongyrchol â Dioddefwyr a'r Côd i Ddioddefwyr, a sut nad yr Unedau Gofal Tystion yw'r man cyswllt bob amser (yn hytrach, yr ymchwilydd yw'r un man cyswllt). Mynegwyd sylw arall y byddai'n ddefnyddiol petai'r adran yn amlinellu adegau pan yw'r heddlu yn gyfrifol am hysbysu'r dioddefwyr a'r adegau pan yw'r CPS yn gyfrifol.

Cafwyd sylwadau hefyd ynghylch y ffordd roedd dioddefwyr yn derbyn gwybodaeth ac a oedd hyn yn cael ei gyflawni'n gyson. Gofynnodd dau ymatebydd am eglurhad ynghylch hyn: a oedd y cyswllt yn digwydd trwy lythyr neu dros y ffôn neu'r ddau, ac a oedd dymuniadau'r dioddefwr yn hyn o beth yn cael eu hystyried fel mater o drefn. Dywedodd ymatebydd arall nad oedd amserlenni yn cael eu darparu ar gyfer rhoi gwybod canlyniad yr achos i'r dioddefwr. Roedd eraill yn pwysleisio'r angen am roi gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod y bwriad i hysbysu dioddefwyr o fewn un diwrnod gwaith yn cael ei weithredu. Gofynnodd un ymatebydd am i unrhyw weithdrefnau i sicrhau bod rhywun yn cysylltu, yn cael eu hegluro o fewn y polisi.

Mynegwyd pryder gan ymatebydd arall y gallai'r terfyn amser o un diwrnod gwaith fod yn rhy hir ar gyfer hysbysu dioddefwr bod diffynnydd yn cael ei ryddhau ar fechnïaeth. Dywedwyd y byddai'r dioddefwr yn fwy diogel petai'n cael gwybod cyn i'r diffynnydd gael ei ryddhau.

CWESTIWN 8: A yw'r adrannau ar fechnïaeth a dedfrydu yn cynnwys y lefel gywir o fanylion? Os nad ydyw, eglurwch eich ateb.

Cafwyd 30 ymateb i'r cwestiwn hwn gyda 21 ymatebydd yn cytuno bod yr adran hon yn cynnwys y lefel gywir o fanylion.

Rhoddodd llawer o ymatebwyr awgrymiadau ynghylch yr hyn y byddai'n ddefnyddiol ei grybwyll yn yr adran hon, gan gynnwys: gwybodaeth am baratoi adroddiadau cyn dedfrydu gan y gwasanaeth prawf, i gynorthwyo ynadon a barnwyr gyda phenderfyniadau dedfrydu; troseddwyr peryglus a'r cais am ddedfrydau penagored er mwyn gwarchod y cyhoedd lle bo angen; a chyfeiriad at y ffaith fod troseddau blaenorol o drais yn y cartref hefyd yn cael eu trin fel nodwedd waethygol wrth ddedfrydu.

Roedd un ymatebydd yn pryderu am eiriad paragraff 14.8, gan deimlo ei fod yn awgrymu y bydd apêl mechnïaeth ar gael ym mhob achos. Mynegodd ymatebwyr eraill fod angen i baragraff 14.11 egluro a yw cyswllt ynghylch mechnïaeth yn digwydd dros y ffôn ynteu drwy lythyr neu'r ddau ac a oes gweithdrefnau ar gael i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Dywedodd un ymatebydd y dylai'r adran hon gynnwys y canlynol: nad oes hawl i apelio yn erbyn dedfrydau sy'n rhy drugarog yn y llysoedd ynadon; y bydd llysoedd ynadon a Llys y Goron yn ystyried y canllawiau dedfrydu cywir; a bod gorchmynion atal ar gael ar hyn o bryd ar gyfer troseddau dan Ddeddf Gwarchod rhag Aflonyddu 1997 yn unig.

Argymhellodd dau ymatebydd y dylid darparu gwybodaeth ynghylch sut y gall person gysylltu â'r Twrnai Cyffredinol mewn perthynas â'r ddedfryd. Dylid gwneud hyn un ai drwy ddolen gwefan neu gyfeiriad/llyfryn gwybodaeth (i sicrhau bod y dioddefwr yn ymwybodol o'r holl ddewisiadau sydd ar gael). Yn y datganiad polisi hefyd fe ddylid rhoi gwybodaeth ynghylch sut i ofyn i'r Twrnai Cyffredinol ailystyried dedfryd y mae'r dioddefwr yn ei hystyried yn rhy drugarog.

Argymhellodd un ymatebydd bod angen cynnwys gwybodaeth yn y datganiad am yr hyn fydd yn digwydd pan fydd adran 12 Deddf Trais yn y Cartref, Troseddu a Dioddefwyr 2004, (Deddf DVCV), yn dod i rym a'i heffaith ar gyfer dioddefwyr trais yn y cartref. Dywedodd un arall fod angen i baragraff 15.4 egluro bod hyn yn cyfeirio'n unig at adran 12 Deddf DVCV 2004, a bod y Ddeddf gyfan eto i'w gweithredu.

CWESTIWN 9: A yw'r adrannau ar ymgysylltu â'r gymuned a chwynion yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r rhai sy'n cefnogi dioddefwyr? Os nad ydynt, sut gallem ni eu gwneud yn fwy defnyddiol?

Cafwyd 25 ymateb i'r cwestiwn hwn, ac o'u plith roedd 17 ymatebydd yn cytuno bod gwybodaeth ddefnyddiol yn yr adran hon.

Mynegodd pum ymatebydd y gellid dweud mwy am ymgysylltu â'r gymuned gan deimlo bod yr adran hon yn gyfyngedig. Fe hoffent weld rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae'r CPS yn ymgysylltu â chymunedau gydag enghraifft, efallai, i ddangos hynny'n glir. Argymhellwyd hefyd y dylid gwneud rhagor i gael adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth neu gan sefydliadau. Awgrymodd un arall y dylid defnyddio dolenni gwe at grwpiau cynrychioliadol lleol er mwyn rhoi darlun o'r hyn sy'n digwydd yn lleol.

Meddyliai un ymatebydd y byddai'n ddefnyddiol cael datganiad yn debyg i hyn: er bod y CPS yn rhoi ystyriaeth i wahanol ddiwylliannau, bod penderfyniadau i erlyn yn seiliedig ar y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron.

Credai ymatebydd arall y dylai'r adran ar gwynion egluro beth oedd yr ymateb safonol gofynnol i bob cwyn ac awgrymodd y frawddeg ganlynol: "Byddwn yn ystyried pob cwyn o ddifrif ac yn ymateb iddi o fewn 10 diwrnod gwaith". Teimlai un arall y dylai'r drefn gwynion a manylion cyswllt asiantaethau perthnasol fod ar gael yn ehangach ac o fewn cyrraedd. Awgrymwyd y dylid paratoi taflen i'w hanfon at asiantaethau â diddordeb yn seiliedig ar brif bwyntiau'r datganiad polisi a chyda manylion cyswllt sefydliadau cymunedol.

Argymhellodd dau ymatebydd y dylai taflen 'sut i wneud cwyn' gael ei rhoi i bob dioddefwr wrth gysylltu â nhw gyntaf. Yn eu barn hwy, os bydd dioddefwyr yn anfodlon â'r gwasanaeth, mae'n

annhebygol y byddant yn mynd i swyddfa agosaf y CPS i gasglu taflen, o ystyried eu gofid emosiynol neu feddyliol.

CWESTIWN 10: A yw'r ddogfen yn cynnwys pobl o bob cymuned? Os nad yw, eglurwch sut gallem wella hyn.

Cafwyd 21 ymateb i'r cwestiwn hwn, ac o'u plith, cafwyd ateb cadarnhaol i'r cwestiwn gan 12. Ni roddwyd sylw gan dri ymatebydd arall a dywedodd dau 'na' yn ateb i'r cwestiwn. Teimlai tri ymatebydd y byddai o gymorth cael rhagor o fanylion ac esboniad am yr hyn yw ymgysylltu â'r gymuned. Dywedodd un ymatebydd y dylai'r datganiad fod ar gael yn Gymraeg ac ym mhob iaith a siaredir yn y Deyrnas Unedig.

Teimlai nifer o ymatebwyr y dylai'r datganiad gydnabod y gall anghenion unigolion amrywio yn ôl rhyw, rhywioldeb, ethnigrwydd, statws mewnfudo, oed, hunaniaeth o ran rhywedd, crefydd neu gred, anabledd neu hunaniaeth arall.

Teimlai un ymatebydd fod angen mwy o bwyslais ar y ffordd y bydd y llysoedd yn helpu pobl sydd ag anawsterau cyfathrebu trwy ddefnyddio canolwyr. Roedd y person yn pryderu hefyd a oedd gweithwyr cyfreithiol proffesiynol wedi derbyn digon o hyfforddiant yng nghredoau ethnig ac ymddygiad ehangach amryfal gymunedau.

Codwyd pryderon tebyg gan dri ymatebydd a oedd yn pryderu'n arbennig am faterion trais ar sail anrhydedd a phriodas dan orfod. Teimlai'r bobl hyn y dylid cyfeirio'n arbennig at geiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n wynebu trais yn y cartref.

Teimlai un ymatebydd y dylid crybwyll mwy ar droseddau yn erbyn pobl anabl a'r rhai a gyflawnir yn erbyn dynion gan fenywod. Cafwyd adlais o hyn gan dri ymatebydd yn benodol, a deimlai nad oedd y ddogfen yn gynhwysol gan nad oedd dynion yn cael eu crybwyll ac eithrio mewn un llinell yn yr ymgynghoriad cyfan. Teimlai un ymatebydd y gallai'r CPS fod wedi gwella'r ymgynghoriad trwy fynd ati i chwilio am sefydliadau a allai gyfrannu at yr arolwg o safbwynt dynion.

CWESTIWN 11: A oes unrhyw ran o'r datganiad polisi rydych yn anghytuno'n gryf â hi? Os oes, nodwch ba baragraff a rhowch esboniad byr i ddweud pam eich bod yn anghytuno.

Cafwyd cyfanswm o 29 ymateb i'r cwestiwn hwn. Dywedodd dau ymatebydd 'oes'. Dywedodd 20 ymatebydd 'nac oes', gyda chwech arall yn ateb 'dim sylw' ac un ymatebydd yn dweud 'ddim yn gymwys'. Teimlai rhai ymatebwyr fod angen eglurhad pellach ar rai meysydd ac roeddynt yn pryderu am raddau gweithredu'r polisi ond nad oedd unrhyw beth yr oeddynt yn anghytuno ag ef.

Cafwyd nifer o sylwadau yn holi: at bwy y mae'r datganiad polisi yn anelu? Awgrymwyd, os caiff ei gyfeirio at ddioddefwyr, y dylid cymryd rhagor o ofal i osgoi iaith dechnegol neu jargon.

Mynegwyd pryder gan dri ymatebydd y byddai'r cyfeiriad yr oedd y polisi hwn yn ei gymryd yn atal rhoi gwybod am droseddau a gyflawnir yn erbyn dioddefwyr gwrywaidd – yn benodol, troseddau a gyflawnir yn erbyn rhai yn y cymunedau hoyw neu drawsrywiol ble gallai fod rhagor o rwystrau rhag rhoi gwybod am droseddau.

CWESTIWN 12: A oes gennych unrhyw sylwadau am y ddogfen?

Cafwyd cyfanswm o 11 ymateb i'r cwestiwn hwn. Dywedodd pum ymatebydd 'nac oes' a chwe ymatebydd arall yn gwneud sylwadau cadarnhaol.

Dywedodd tri ymatebydd fod y CPS yn rhagweithiol wrth ledaenu'r polisi hwn at wasanaethau arbenigol ym maes trais yn y cartref sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda dioddefwyr a thystion. Fodd bynnag, roeddynt yn pryderu efallai nad oedd rhai gwasanaethau cefnogi a gweithwyr unigol mor hyddysg. Maent yn credu bod y polisi yn erfyn defnyddiol ac y byddai'n golygu bod gweithwyr cefnogi yn gallu egluro'r CPS yn well wrth ddioddefwyr a thystion ac ymgysylltu'n well â'r CPS.

Dywedodd un ymatebydd, er bod y ddogfen ei hun yn glir, yr oedd yn pryderu nad oedd rhoi pethau ar waith bob amser mor hawdd ag y dylai fod. Yr oedd yn pryderu hefyd y gallai beri dryswch i ddioddefwyr, ac felly y byddai'n aneffeithiol.

Dywedodd un, er bod dolenni at ddogfennau eraill yn ardderchog, gan ganiatáu i gyfranogwyr gael mynediad at ba wybodaeth bynnag oedd ei hangen arnynt, mewn rhai achosion fe fyddai wedi bod yn ddefnyddiol cael crynodeb byr o'r wybodaeth a'r canllawiau yn y dogfennau ar wahân hyn.

Gofynnwyd am eglurhad am y llinellau cymorth y cyfeiriwyd atynt. Gofynnwyd am esboniad hefyd ynghylch nifer o linellau cymorth, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â cham-drin pobl hŷn a dioddefwyr gwryw.

O ran polisi, awgrymodd un unigolyn y dylid rhoi rhagor o bwys ar yr unigolyn ac os nad yw dioddefwr yn dymuno bwrw ymlaen ag erlyniad, yna y dylai'r ffactor hwnnw lywyddu.

Awgrymodd ymatebydd arall y dylai'r datganiad polisi gyfeirio'n ffurfiol at ganllawiau diweddaraf ACPO ar ymchwilio i gam-drin yn y cartref. Awgrymwyd y gallai hyn fod yn ddolen ar y we gan nad yw'n gyfyngedig nac yn amodol ar unrhyw eithriadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Pwysleisiodd pedwar ymatebydd ba mor bwysig yw asesu risg yn y maes hwn gan ddweud y byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at ddefnyddio'r ddogfen asesu risg wrth wneud penderfyniadau. Cyfeiriwyd at y ffaith fod llawer o asiantaethau yn defnyddio'r dull hwn bellach.

Roedd nifer o ymatebwyr yn pryderu am y term "trais yn y cartref". Er bod y diffiniad yn egluro bod trais yn y cartref yn gallu bod yn gorfforol, seicolegol, rhywiol, emosiynol ac ariannol, teimlid bod y term 'trais' yn aml yn cael ei gysylltu â cham-drin corfforol yn unig gan lawer o bobl, gan

gynnwys dioddefwyr, asiantaethau a'r cyhoedd. Mae'r term "camdriniaeth yn y cartref" yn ehangach.

Teimlai tri ymatebydd bod yn rhaid i'r CPS ystyried a yw'r dioddefwr yn fodlon â chanlyniad proses y llys. Teimlent bod yn rhaid i'r CPS gofio y gall y ffordd y mae'n mesur canlyniad 'llwyddiannus' fod yn wahanol i'r hyn a ystyrir yn 'llwyddiannus' gan y dioddefwr. Roeddynt yn teimlo bod angen canolbwyntio ar y broses yn ogystal â'r canlyniad er mwyn sicrhau bod y dioddefwr yn fodlon. Dywedwyd bod ymgynghori ag arbenigwyr ym maes darparu gwasanaeth trais yn y cartref yn hanfodol, gan fod y grwpiau hyn yn gweithio gyda dioddefwyr yn ddyddiol ac yn deall beth oedd angen ei newid yn y system er mwyn i ddioddefwyr deimlo bod cyfiawnder wedi digwydd a bod rhywun wedi gwrando arnynt yn briodol.

Teimlai dau ymatebydd bod y CPS wedi methu cydnabod dioddefwyr gwrywaidd yn addas, nad yw'n trin dioddefwyr gwrywaidd yn yr un ffordd â dioddefwyr benywaidd.

Eu teimlad oedd fod yn rhaid i'r CPS gael polisi trais yn y cartref ar wahân ac arbennig ac na ddylai gynnwys ei bolisi trais yn y cartref yn ei Strategaeth Trais yn erbyn Menywod. Roeddynt yn teimlo y byddai parhau ar y trywydd hwn yn wahaniaethu ar sail rhyw.

Roedd un ymatebydd yn pryderu pa mor ddarllenadwy oedd y ddogfen gan deimlo y byddai wedi bod yn ddefnyddiol ei chael mewn Saesneg plaen neu o leiaf yn fwy hygyrch i'r darllenydd cyffredin. Awgrymwyd y dylid rhoi'r eirfa ar ddechrau'r ddogfen yn hytrach nag ar y diwedd ble mae i'w chael fel arfer.

Casgliad

Rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad a'r amser a fuddsoddwyd ganddynt yn gwneud hynny. Rydym yn sylweddoli y bydd hyn wedi bod yn arbennig o anodd i'r rhai hynny y mae trais yn y cartref wedi effeithio arnynt yn uniongyrchol neu i'r rhai sy'n gweithio i gefnogi dioddefwyr o'r fath. Rydym wedi ystyried yr holl ymatebion a gawsom yn fanwl, ac wedi rhoi ystyriaeth iddynt wrth bwyso a mesur a ddylid diwygio'r datganiad. Bydd y newidiadau bellach yn cael eu hadlewyrchu yn y fersiwn o'r Datganiad Polisi Cyhoeddus ar ei newydd wedd.

Mae'r CPS yn ymrwymo i sicrhau bod ein polisi erlyn yn golygu y bydd ein herlynwyr yn gallu gwneud y penderfyniadau cyhuddo cywir a hynny nid yn unig yn unol â'r gyfraith gyfredol, ond hefyd, pan yw'n deg a chyfreithlon gwneud hynny, gan roi sylw i'r angen penodol i ystyried elfennau risg i ddioddefwyr a thystion yn ogystal â'u diogelwch. Bydd hyn yn sicrhau bod gan y CPS bolisi y gall dioddefwyr, tystion a'r cyhoedd barhau i fod â hyder ynddo

Meini Prawf yr Ymgynghoriad

Dyma chwe maen prawf yr ymgynghoriad:

1. Ymgynghori'n eang drwy gydol y broses, gan ganiatáu o leiaf 12 wythnos ar gyfer ymgynghoriad ysgrifenedig o leiaf unwaith wrth ddatblygu'r polisi.

2. Bod yn glir beth yw eich cynigion, ar bwy y gallai hyn effeithio, pa gwestiynau sy'n cael eu gofyn ac amserlen derbyn ymatebion.

3. Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn glir, cryno a digon hygyrch.

4. Rhoi adborth ynghylch yr ymatebion a gafwyd a sut mae proses yr ymgynghoriad wedi dylanwadu ar y polisi.

5. Monitro effeithiolrwydd eich adran yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys trwy ddefnyddio cydgysylltydd ymgynghori un pwrpas.

6. Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn dilyn arferion da rheoli gwell, gan gynnwys cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol os yw'n briodol.

Rhaid i'r meini prawf hyn gael eu hatgynhyrchu o fewn pob dogfen ymgynghori.

Atodiad A

Ymateb i'r ymgynghoriad

Ymatebwyr Unigol

Geoff Carr
Raymond Barry
Mrs R. Sanders
Tracey Morgan
Andrew Storch

Sefydliadau

Cymorth i Fenywod Brycheiniog
Cymorth i Fenywod Bangor a'r Cylch
Cymorth i Fenywod Dyffryn Lliw
Cymorth i Fenywod Castell-nedd
Cymorth i Fenywod
Cymorth i Fenywod Wrecsam
Fforwm Cam-drin yn y Cartref Caerffili
CAADA
Stonewall
Ahimsa
Women's Aid
Fforwm Cam-drin yn y Cartref Powys
Cymorth i Ddioddefwyr
Leeds Inter-Agency Project
Menter ManKind
Fforwm Cam-drin yn y Cartref Ceredigion
Wearside Women in Need
Refuge
Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru
Parity
Cyngor Sir Caerffili
Cyngor Newham
Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol GIG Milton Keynes

Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol

Asiantaeth Genedlaethol Gwella Plismona
CPS Gorllewin Swydd Efrog
Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol
Heddlu Swydd Nottingham
CPS Sussex
CPS Suffolk
CPS Swydd Gaerlŷr
CPS Glannau Mersi
CPS Gorllewin Canolbarth Lloegr
Heddlu Gogledd Cymru
Heddlu Swydd Hampshire
Heddlu Caint
MPS Territorial Policing
Grŵp Ymgynghoriad Polisi Trais yn y Cartref CPS Gogledd Cymru
Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
CPS Hampshire ac Ynys Wyth
Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
CPS Northumbria
Heddlu Swydd Northampton
Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth

Mae hon yn ddogfen gyhoeddus.
Y mae ar gael ar wefan y CPS: www.cps.gov.uk
Cynhyrchwyd gan y Gyfarwyddiaeth Polisi
Cyhoeddwyd Mawrth 2009

Cynlluniwyd gan Brookhill Design Studio Limited